

Trosolwg

Mae'r Safon hon yn ymwneud â sicrhau bod gwaith a gwblheir ar gael yn y fformatau gofynnol. Bydd hyn yn berthnasol i unrhyw waith y byddwch yn ei gynhyrchu y mae angen ei ddarparu i eraill yn y llif gwaith neu i gleientiaid.

Dylai'r Safon hon fod yn berthnasol i unrhyw un sy'n gysylltiedig â darparu gwaith a gwblheir yn ôl fformat.

Meini prawf perfformiad

Rhaid i chi allu:

1. gwirio disgwyliadau cleientiaid a gofynion defnyddwyr terfynol gan ddefnyddio ffynonellau dibynadwy
2. dyblygu, logio a sicrhau bod gwaith a gwblheir ar gael ym mhob fformat sy'n ofynnol gan gleientiaid a fformatau y bydd eu hangen ar ddefnyddwyr terfynol
3. cysylltu â chydweithwyr sy'n gallu datrys problemau pan nad yw gwaith ar gael mewn fformatau gofynnol
4. sicrhau bod copïo i fformatau ychwanegol yn cynnal yr ansawdd gofynnol
5. cyflenwi copïau diogel i bob person neu sefydliad yn y fformatau sy'n ofynnol ganddynt
6. archifo a logio gwaith a gwblheir yn unol â gweithdrefnau'r cwmni
7. gwirio bod deunydd a ddarperir gennych yn gyflawn ac yn gweithio
8. gwirio bod gofynion cydymffurfiaeth wedi'u hateb
9. cynnwys dogfennau angenrheidiol a disgwylidig ar gyfer gwaith a gwblheir
10. gwirio gyda'r rhai rydych yn darparu copïau ar eu cyfer bod eu gofynion yn cael eu hateb
11. cynnal diogelwch ar gyfer ffeiliau a deunyddiau eraill yn unol â gofynion y cwmni

Gwybodaeth a dealltwriaeth

Mae angen i chi wybod a deall:

1. sut i nodi gofynion cleientiaid a'r bobl a'r sefydliadau hynny a fydd yn derbyn gwaith a gwblheir
2. fformatau a ddefnyddir mewn gwaith a gwblheir
3. gofynion fformatau ffeiliau a throsi a thrin ffeiliau
4. effaith fformatau ffeiliau a throsiadau ar ansawdd technegol a safonau darparu
5. safonau gwyllo presennol a safonau proffesiynol, cenedlaethol a rhyngwladol presennol o ran darparu a datganiadau o arfer gorau ar gyfer yr ystod o lwyfannau a chynnwys
6. gweithdrefnau ar gyfer trosi fformatau
7. gweithredu offer copïo
8. dogfennaeth a ddylai ategu gwaith a ddarperir
9. confensiynau logio
10. systemau'r cwmni ar gyfer storio, arbed copïau wrth gefn a diogelwch
11. sut i sicrhau diogelwch gwaith
12. gofynion cydymffurfiaeth a gweithdrefnau'r cwmni y mae'n rhaid eu hateb cyn darparu gwaith a gwblheir

Darparu gwaith a gwblheir yn ôl fformat

Datblygwyd gan	ScreenSkills
Dyddiad cymeradwyo	31 Ion 2017
Dyddiad Adolygu Dangosol	31 Ion 2020
Dilysrwydd	Ar hyn o bryd
Statws	Gwreiddiol
Sefydliad cychwynnol	Creative Skillset
RCU gwreiddiol	SKSPP08
Galwedigaethau perthnasol	Gweithwyr proffesiynol ôl-gynhyrchu
Cyfres/Set	Ôl-gynhyrchu
Geiriau Allweddol	Ôl-gynhyrchu, Cynhyrchu, Ffilm, Theledu, Fformat, Safonau